



**Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (GMC)**

**Polisi Iaith Gymraeg**

|            |   |
|------------|---|
|            | <b>Polisi Iaith Gymraeg</b>   |
| <b>1.0</b> | <b>Cyflwyniad</b>   |
| <b>1.1</b> | <p>Mae Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (GMC) yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws yng Nghymru, yn ôl Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n cydnabod bod Iaith Gymraeg gan y cyhoedd yng Nghymru, ac felly bod yn rhaid i'r cyhoedd dderbyn gwasanaeth dwyieithog wrth sefydliadau cyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru.</p> <p>Mewn cydnabyddiaeth o hyn, a ffactorau cysylltiedig eraill megis Hawliau Dynol, mae GMC yn cydnabod bod angen darparu dewis proactif o iaith i'n staff, partneriaid a gwirfoddolwyr.</p> <p>Ymhellach, ac yn ôl Polisi Llywodraeth Cymru - yn benodol 'Cymraeg 2050 - miliwn o siaradwyr Cymraeg' - mae GMC yn ceisio meithrin dwyieithrwydd yng Nghymru, a chynnig dewisiadau a chyfleoedd positif i staff, asiantaethau yn y maes, a'r cyhoedd.</p>   |
| <b>2.0</b> | <b>Sgôp y Polisi</b>  |
| <b>2.1</b> | <p>Mae'r polisi hwn yn berthnasol i</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Holl wirfoddolwyr GMC</li> <li>• Pob aelod o staff sy'n cefnogi GMC</li> <li>• Bwrdd Ymddiriedolwyr GMC</li> </ul>   |
| <b>2.2</b> | <p>Gobeithir bod unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r polisi hwn wedi cael eu hateb yn glir. Os oes gennych unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb cysylltwch â Rheolwr GMC.</p>   |
| <b>3.0</b> | <b>Darparu Gwasanaeth Dwyieithog</b>  |
| <b>3.1</b> | <p>Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol GMC. Mae GMC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn y Gymraeg â'r Saesneg.</p> <p>Trwy ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg ei hun, cred GMC y bydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• helpu darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'w aelodau ac i bobl Cymru</li> <li>• helpu cydnabod natur ddwyieithog Cymru</li> <li>• codi apêl y mudiad yn y sector ehangach</li> <li>• dangos ewyllys da ac o ganlyniad yn annog a helpu denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg</li> <li>• arddangos arfer da i eraill yn y trydydd sector, gan lynu wrth ei Bolisi Cyfleoedd Cyfartal ei hun ar yr un pryd.</li> </ul> <p>Mae GMC wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael ystyriaeth gyfartal yn ei weithgareddau. Mae GMC yn anelu adlewyrchu patrwm ieithyddol y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.</p> <p>Bydd GMC yn annog ymwybyddiaeth bositif a dealltwriaeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd fel nodwedd werthfawr o amrywioldeb dynol a</p> |

|            |  |
|------------|--|
|            | Chymru fodern, a hynny ymysg ei wirfoddolwyr, Ymddiriedolwyr a'r staff sy'n cefnogi GMC.   |
| <b>4.0</b> | <b>Darparu Gwasanaethau</b>  |
| <b>4.1</b> | <p><b>Polisiau a Mentrau Newydd</b><br/>Bydd Polisiau a Mentrau newydd sy'n cael eu mabwysiadu yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag bo'n bosib, gan ddod â'r mudiad yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle.</p> <p>Bydd pob aelod o staff sy'n cefnogi GMC yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ofynion y Polisi Iaith Gymraeg.</p>  |
| <b>4.2</b> | <p><b>Safon y Gwasanaeth Cymraeg</b><br/>Mae GMC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'n croesawu trafodion yn y ddwy iaith.</p> <p>Ein nod yw darparu gwasanaeth o safon uchel ymhob agwedd o waith y mudiad, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn ôl ein hymrwymiad i'r cynllun hwn.</p> <p>Bydd GMC yn hysbysebu'r cynllun hwn ac yn monitro ac adolygu'r safonau y mae'n eu cyrraedd, gyda'r nod o wella'r safon hwn yn barhaus.</p> |
| <b>5.0</b> | <b>Cyswllt Uniongyrchol</b>  |
| <b>5.1</b> | <p><b>Cyfatebiaeth ysgrifenedig</b><br/>Mae GMC yn croesawu cyfatebiaeth naill ai yn y Gymraeg neu Saesneg (yn ysgrifenedig, trwy ebost neu ffacs), a rhoddir ymateb yn yr un iaith â'r gyfatebiaeth wreiddiol.</p> <p>Bydd llythyrau Cymraeg hefyd yn cael eu hanfon at unigolion neu grwpiau sydd wedi cysylltu â GMC trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>  |
| <b>5.2</b> | <p><b>Cyfathrebu dros y ffôn</b><br/>Bydd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn Saesneg yn wreiddiol am nad oes gan GMC aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os oes well gan y sawl sy'n ffonio gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg bydd un o Ymddiriedolwyr GMC yn dychwelyd yr alwad trwy gyfrwng y Gymraeg</p>   |
| <b>5.3</b> | <p><b>Hyfforddiant</b><br/>Bydd GMC yn hyrwyddo'r galw am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ymgynghori â gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr.</p>   |
| <b>6.0</b> | <b>Delwedd Gyhoeddus GMC</b>   |
| <b>6.1</b> | <p><b>Cyhoeddiadau</b><br/>Bydd GMC yn ymdrechu i sicrhau bod y dogfennau y mae'n eu cyhoeddi, ei ffurflenni, a'i ddeunyddiau hysbysebu ar gael yn ddwyieithog.</p>  |
| <b>6.2</b> | <p><b>Gwefan</b><br/>Saesneg yw iaith y mwyafrif o wefan GMC. Fodd bynnag, mae rhannau allweddol o'r wefan yn ddwyieithog. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu fel bod modd creu a chynnal gwefan sy'n gwbl ddwyieithog.</p>   |

|            |  |
|------------|--|
|            |  |
| <b>6.3</b> | <b>Recriwtio Staff a Hysbysebu Swyddi</b><br>Ar hyn o bryd nodir “y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg” fel maen prawf delfrydol ar gyfer pob swydd yn GMC. Os bydd anghenion y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau GMC yn newid, bydd y rolau yn cael eu newid i gyfateb â hyn.   |
| <b>7.0</b> | <b>Gweithredu a Monitro y Polisi Iaith Gymraeg</b>   |
| <b>7.1</b> | <b>Dysgu Cymraeg</b><br>Mae GMC yn annog staff i ddysgu Cymraeg a bydd yn cefnogi staff sydd eisiau dysgu / gwella eu sgiliau iaith, ar lefel ymarferol.   |
| <b>7.2</b> | <b>Cyfieithu</b><br>Penodi cyfieithwyr – Mae GMC wedi ymrwymo i sicrhau bod gan gyfieithwyr yr elusen, boed yn fewnol neu’n allanol, gymwysterau priodol a’u bod yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel.<br>Bydd GMC yn gweithio gyda busnesau cyfieithu lleol, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, y tair prifysgol leol a’u Hundebau Myfyrwyr, er mwyn sicrhau bod cyfieithiadau o’r safon uchaf posib, gan sicrhau hefyd ein bod yn defnyddio’r dechnoleg cyfieithu ddiweddaraf. |
| <b>8.0</b> | <b>Cyfleoedd Gwirfoddoli Cyfrwng Cymraeg</b>   |
| <b>8.1</b> | Mae GMC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg. Mae’r cyfleoedd hyn wedi eu dylunio yn unol â gofynion ein sefydliadau sy’n bartneriaid, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, ac anghenion y gymuned.  |
| <b>9.0</b> | <b>Cwynion</b>   |
| <b>9.1</b> | Gall unrhyw aelod sy’n teimlo eu bod nhw wedi cael eu trin yn annheg oherwydd eu dewis iaith godi hyn trwy ddilyn y canllawiau yng Ngweithdrefn Gwyno GMC.   |